
BLOOMSBURY EDUCATION

CLPE
CENTRE FOR LITERACY IN PRIMARY EDUCATION






© Bloomsbury

# CERDDI LLE GALLWCH CHI DDATGELU EICH CREADIGRWYDD YNDDYNT

## GWEITHGAREDD 1: I WILL NEVER WORK ON MY BIRTHDAY

**Cyn dechrau'r gweithgaredd hwn, gwnewch yn siŵr bod gan ddisgyblion fynediad at gopi o'r llyfr y gallant ei ddarllen drostynt eu hunain, a'i drafod mewn parau neu grwpiau bach.**

Darllenwch y gerdd ***I Will Never Work on My Birthday*** (t.14). Trafodwch gyda'r disgyblion eu hymatebion cychwynnol i'r gerdd.

- Beth wnaethon nhw feddwl amdano wrth ddarllen y gerdd?
- Sut wnaeth y gerdd iddyn nhw deimlo?
- Beth wnaeth iddyn nhw deimlo fel hyn?

Trafodwch y cysyniad o'r 'I' mewn cerdd. Mae'n bwysig i ddisgyblion ddeall y gall hwn fod yn unrhyw un – yn siaradwr sy'n hollol wahanol i'r bardd, yn ffigwr hanesyddol, yn gymeriad ffuglennol sy'n rhannu nodweddion â'r bardd, yn berson go iawn o fywyd y bardd, neu weithiau, y bardd ei hun. Am y rheswm hwn, wrth drafod yr 'I' mewn cerddi sydd yn cael eu cyflwyno ag adroddwr 'I', dylem ddweud y siaradwr, yr adroddwr neu'r 'I', yn hytrach na'r 'bardd'.

Gyda hyn mewn golwg, gadewch i'r disgyblion ail-ddarllen y gerdd drostynt eu hunain ac i drafod:

- Beth ydych chi'n gwybod, neu'n meddwl eich bod chi'n gwybod, am yr adroddwr yn y gerdd hon?
- Beth yn y gerdd sy'n caniatáu ichi ddod i'r casgliad hyn amdanynt?

Ceisiwch eu hannog nhw i ddefnyddio uwcholeuydd ac anodi'r gerdd gyda'u harsylwadau, meddyliau a'u syniadau, yn ogystal ag unrhyw gwestiynau sy'n dod i'r meddwl. Dewch yn ôl at eich gilydd i drafod hyn, gan ddefnyddio'r iaith a roddodd gipolwg i gymeriad yr adroddwr.

© Bloomsbury

Nawr, ceisiwch annog y disgyblion i feddwl am eu pen-blwydd eu hunain:

- Pryd yn y flwyddyn mae eich pen-blwydd?
- Ydych chi fel arfer yn gorfod mynd i'r ysgol ar eich pen-blwydd, neu ydy eich pen-blwydd yn ystod gwyliau'r ysgol?
- A fyddai'n well gennych chi gael diwrnod i ffwrdd ar eich pen-blwydd neu fod yn yr ysgol neu'n gweithio? Pam?
- Meddyliwch am sut mae'r gerdd yn agor. Pa awyrgylch sy'n cael ei ysgogi yma?
- Sut mae'r awyrgylch hwn yn cael ei greu?
- Sut mae hyn yn cyferbynnu ag ail ran y gerdd, lle mae'r pen-blwydd perffaith yn cael ei ddisgrifio? Pa rannau o'r gerdd sy'n taro deuddeg i chi?
- Pa un efallai y buasech chi ei eisiau ar gyfer eich pen-blwydd perffaith?

Rhowch lyfr nodiadau bach i bob disgybl, a allai ddod yn gyfnodolyn iddynt wrth iddynt weithio gyda'r casgliad hwn. Ar dudalen wag, ceisiwch eu hannog nhw i ysgrifennu'n rhydd am ddeng munud, gan gofnodi'r holl bethau fyddai'n rhan o'u pen-blwydd perffaith eu hunain.

Nawr, rhowch amser iddyn nhw gyferbynnu hyn gyda'r hyn dydyn nhw ddim eisiau ei wneud ar eu pen-blwydd, i greu'r un ymdeimlad o wrthwynebiad ag yn y gerdd wreiddiol. Rhowch gyfnod o amser ysgrifennu annibynnol i'r plant, lle gallant ddefnyddio'r syniadau hyn i greu cerdd eu hunain, ar dudalen newydd o'u cyfnodolyn, a chyfeirio'n ôl at y gerdd wreiddiol a'i ffurf i'w defnyddio i gefnogi eu hysgrifennu eu hunain, os byddent yn gweld hyn o gymorth. Gallent fenthyg o'r llinellau a'r strwythur gwreiddiol, neu gallent dorri i ffwrdd o hyn i adrodd eu stori eu hunain am freuddwyd neu ben-blwydd trychinebus. Wrth iddynt weithio ar eu cerddi, dylech ganiatáu iddynt ystyried sut a pham y byddant yn torri llinellau a phenillion, gan ddefnyddio'r hyn yr oeddent yn ei ystyried yn effeithiol yng ngwaith Matt ei hun.

Dylech weithio ar eich cerdd eich hun ochr yn ochr â'r plant wrth iddynt ysgrifennu, a rhannu eich proses eich hun gydag unrhyw blant sy'n cael trafferth dechrau arni neu sydd angen cymorth gyda'r grefft o ysgrifennu. Pan fyddant wedi cael cyfle i lunio drafft, rhowch amser iddynt ei ddarllen yn uchel i bartner, a fydd yn gallu dweud wrthyn nhw beth oedden nhw'n ei hoffi am eu gwaith, gofyn cwestiynau iddyn nhw amdano, trafod unrhyw heriau ac awgrymu gwelliannau fel darllenydd. Eglurwch y broses hon, drwy rannu eich gwaith eich hun gyda'r plant yn gyntaf, ac edrych ar sut i olygu ar y dudalen, wrth i heriau gael eu harchwilio ac wrth i awgrymiadau gael eu gwneud. Eglurwch bod ysgrifennu yn broses betrus, anodd a blêr yn aml, wrth i chi lunio syniadau mewn i ddarn gorffenedig.

© Bloomsbury

Pan fyddant wedi gweithredu ar yr ymateb, rhowch amser iddyn nhw gyflwyno eu cerdd i'w chyhoeddi. Gallai hyn fod drwy ei hysgrifennu mewn llawysgrifen cyflwyno, teipio ar brosesydd geiriau, neu ffilmio perfformiad o'u cerdd orffenedig. Casglwch y rhain at ei gilydd,  a gwnewch arddangosfa, o gwmpas copi o'r gerdd wreiddiol a wnaeth ysgogi eu syniadau. Gadewch i'r plant gael amser i fyfyrio ar eu gwaith nhw ac eraill, a siarad am beth roedden nhw'n ei hoffi, beth roedden nhw'n ei weld yn heriol, a sut maen nhw'n teimlo am y cyfansoddiadau gorffenedig.



© Bloomsbury

# GWEITHGAREDD 2: THE WHEEL OF WORRY

**Cyn dechrau'r gweithgaredd hwn, gwnewch yn siŵr bod gan ddisgyblion fynediad at gopi o'r llyfr y gallant ei ddarllen drostynt eu hunain, a'i drafod mewn parau neu grwpiau bach.**

Darllenwch y gerdd ***The Wheel of Worry*** yn uchel (t.43). Dylech ganiatau amser i ddisgyblion drafod eu hymatebion cychwynnol i'r gerdd:

- Beth wnaethon nhw feddwl amdano wrth ddarllen y gerdd?
- Sut wnaeth y gerdd iddyn nhw deimlo?
- Beth wnaeth iddyn nhw deimlo fel hyn?

Nawr, dechreuwch ymchwilio i sut mae'r gerdd hon yn cymharu neu'n cyferbynnu â'r gerdd *I Will Never Work on My Birthday*.

- Pa argraff ydych chi'n ei gael am adroddwr y gerdd hon?
- Beth ydych chi'n gwybod neu'n meddwl eich bod chi'n gwybod amdanyn nhw?
- Ydych chi'n adnabod ac yn cydymdeimlo ag unrhyw un o'r pryderon maen nhw'n eu rhannu?
- Beth yw hi am yr iaith neu'r ffordd y cyflwynir y gerdd sy'n eich denu fel darllenydd ac sy'n creu cysylltiad â'r adroddwr a'r pwnc?
- Rhowch amser a lle i'r disgyblion ail-ddarllen y gerdd drostynt eu hunain: ac i uwcholeuo ac anodi'r gerdd gyda'u harsylwadau, meddyliau a'u syniadau, yn ogystal ag unrhyw gwestiynau sy'n dod i'r meddwl.

Dewch yn ôl at eich gilydd i drafod hyn, gan ddefnyddio'r iaith a roddodd gipolwg i gymeriad yr adroddwr.

- Beth ydy'r pethau sy'n eu poeni nhw?
- Pam ydych chi'n meddwl bod y bardd wedi dewis rhoi comas gwrthdro o gwmpas y gair 'mates'?
- Beth ydych chi'n sylwi am y ffordd mae llinellau'n cael eu gosod allan?
- Pam ydych chi'n meddwl y dewisodd y bardd i wneud hyn?
- Pa effaith mae'r gofodau hyn yn eu cael?

© Bloomsbury


Ystyriwch sut a pham y gallai barddoniaeth fod yn gyfrwng da i archwilio a gwneud synnwyr o'n teimladau.

- Pam ydych chi'n meddwl y gallai fod yn ddefnyddiol ysgrifennu eich meddyliau a'ch teimladau mewn cerdd?
- Pa fathau o bethau allai fod ar eich 'olwyn boeni' eich hun?
- Dylech annog y disgyblion i droi i dudalen newydd yn eu llyfrau nodiadau barddonol, ac i nodi'r mathau o bethau y buasen nhw efallai'n poeni amdanynt bob dydd.
- Ceisiwch sicrhau eu bod yn gwybod bod eu llyfrau nodiadau ar eu cyfer nhw yn unig, a does dim rhaid iddyn nhw rannu'r pethau maen nhw'n nodi lawr yma gyda neb, oni bai eu bod nhw eisiau gwneud hynny.

Fel yn y gweithgaredd blaenorol, rhowch amser i ddisgyblion ddefnyddio'r syniadau hyn i ddrafftio, cael ymateb, golygu a chyhoeddi eu cerddi eu hunain am y pethau sy'n eu poeni. Unwaith eto, efallai y byddant eisiau defnyddio ffurf a strwythur y gerdd wreiddiol i gefnogi eu cyfansoddiad, neu efallai y byddant eisiau torri i ffwrdd o'r strwythur hwn i greu eu cyfansoddiadau unigryw eu hunain, a rhannu eu meddyliau a'u pryderon. Dylech weithio ochr yn ochr â'r plant, gan gyfansoddi a chael ymateb i'r hyn rydych chi wedi'i ysgrifennu, dangos sut i ddatblygu rhannau i wella llif, rythm neu'r ymgysylltu emosiynol, neu sut i wneud penderfyniadau ynghylch sut y bydd y gerdd yn cael ei gosod allan i'r darllenydd.

Dylech ganiatáu i ddisgyblion wneud penderfyniadau ynglŷn â sut i gyhoeddi eu cerddi; p'un ai i'w hysgrifennu mewn llawysgrifen cyflwyno, eu teipio allan neu recordio neu greu fideo o berfformiad ohonynt.

Efallai na fydd rhai disgyblion eisiau rhannu eu cerddi, felly gwnewch yn siŵr eich bod chi'n roi gwybod iddyn nhw fod hynny'n iawn.



© Bloomsbury